Department for Environment Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

helpline@defra.gov.uk
www.gov.uk/defra

**Dyddiad** Rhagfyr 2025

Annwyl Syr/Madam,

## Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ynghylch y Canllawiau Drafft ar Sancsiynau Sifil Iechyd Planhigion

Mae'r ymgynghoriad hwn, a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru, yn eich gwahodd i gyflwyno sylwadau ar y canllawiau arfaethedig sy'n nodi sut mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yn bwriadu defnyddio sancsiynau sifil.  Rydym yn bwriadu ei gyhoeddi'n gynnar flwyddyn nesaf.

Cyflwynwyd sancsiynau sifil ar gyfer iechyd planhigion fel rhan o ddeddfwriaeth yn 2020 ond nid yw APHA wedi eu rhoi ar waith eto. Bydd y canllawiau, ar ôl eu cyhoeddi, yn ein galluogi i ddefnyddio sancsiynau sifil yng Nghymru a Lloegr, mewn perthynas â throseddau sy'n ymwneud ag iechyd planhigion y mae APHA yn gyfrifol am gymryd camau gorfodi yn eu cylch.

Mae sancsiynau sifil yn darparu amrywiaeth ehangach o opsiynau gorfodi y gellir eu defnyddio yn ogystal â'r adnoddau sy'n bodoli eisoes. O ganlyniad, bydd APHA yn gallu ymgymryd â'i rôl orfodi mewn perthynas â rheoliadau iechyd planhigion mewn ffordd fwy gymesur ac yn gallu cyfateb unrhyw sancsiwn neu gam gorfodi yn well i'r drosedd.

Mae'r mwyafrif helaeth o weithredwyr yn cydymffurfio â'r rheoliadau ac ni fydd y sancsiynau sifil yn effeithio arnynt. Bydd APHA yn parhau i **ddefnyddio cyngor ac arweiniad yn bennaf** i annog cydymffurfiaeth lle y bo'n bosibl.

Gellir dod o hyd i'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â sancsiynau sifil yn atodlen 4A i'r canlynol:

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Lloegr) 2019) (legislation.gov.uk)

Positive About Disabled People
INVESTORS IN PEOPLE

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020 (legislation.gov.uk)

Fe'ch gwahoddir i adolygu'r canllawiau drafft er mwyn i ni allu sicrhau eu bod yn glir cyn eu cyhoeddi. Dylech ystyried y cwestiynau canlynol:

1. A yw'r canllawiau yn glir ac yn hawdd i'w deall, yn eich barn chi? Os nad ydynt, pa rannau sy'n aneglur?
2. A ydych yn deall y gwahanol fathau o sancsiynau sifil, ac o dan ba amgylchiadau y gellir eu gosod?
3. A ydych yn deall eich hawliau i apelio, neu i gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau yn erbyn sancsiwn sifil?
4. Unrhyw sylwadau eraill?

Dylid anfon unrhyw sylwadau i Defra yn planthealth@defra.gov.uk erbyn 06 Chwefror 2026, gan nodi'r pwnc **SANCSIYNAU SIFIL.**

Mae'n bosibl y caiff sylwadau a gyflwynir mewn ymateb i'r llythyr hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, eu cyhoeddi ar gais, yn unol â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Os nad ydych am i'ch ymateb, gan gynnwys eich enw, eich manylion cyswllt ac unrhyw wybodaeth bersonol arall, fod ar gael yn gyhoeddus, nodwch hynny'n glir yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich sylwadau. Noder, os bydd eich cyfrifiadur yn cynnwys ymwadiad cyfrinachedd yn awtomatig, na fyddwn yn ystyried hwn yn gais am gyfrinachedd. Esboniwch pam rydych am gadw'r manylion yn gyfrinachol. Byddwn yn ystyried eich rhesymau os bydd rhywun yn gofyn am y wybodaeth hon o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Fodd bynnag, ni allwn warantu y gallwn gadw'r manylion hynny'n gyfrinachol bob amser.

Yn gywir

Sam Bishop
Pennaeth Polisi Iechyd Planhigion a Gwenyn a PVS
Sam.bishop@defra.gov.uk